Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

Dyfodol Ffermio Organig yng Nghymru

Hydref 2002

ISBN 0 7504 3057 5
Dyluniwyd gan CartoGraffeg G/410/02-03

Hydref

© Hawlfraint y Goron 2002
Cysodwyd gan y Gwasanaethau Prosesu Testun

Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig

Dyfodol ffermio organig yng Nghymru

Rhagair

Mae Cymru wedi bod yn flaenllaw yn natblygiad sector organig y DU a'i tharged yw y bydd 10% o'i chynnyrch amaethyddol yn organig erbyn 2005. Mae dyfodol tymor hir ffermio yng Nghymru yn dibynnu ar allu'r sector i ehangu. Ond er gwaetha' twf sylweddol yn y galw yn y DU am fwyd organig a'r ffaith bod cymorth ariannol ar gael i ffermwyr droi'n organig, mae twf y sector organig yng Nghymru wedi arafu. Hefyd, mae'r prisiau premiwm a delir am gynnyrch organig i ffermwyr wedi cwympo. O ganlyniad, mae rhai'n amau a fydd modd cyrraedd y targed o 10% a chodwyd ofnau hefyd ynghylch rhagolygon cyffredinol y sector.

Yn erbyn y cefndir hwn, penderfynodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ymchwilio i ddyfodol ffermio organig ac i'r help sydd ei angen ar y sector. Bu'r Pwyllgor yn ystyried effeithiau amgylcheddol ac iechyd systemau organig a'r anawsterau economaidd a marchnata a wynebir gan y sector.

Daethom i'r casgliad y dylid parhau i gefnogi'r sector, fel rhan bwysig o bolisi amaethyddol cynaliadwy. Yn ganolog i hynny, rhaid wrth system ariannu well fydd yn seiliedig ar daliadau cynnal di-dor a strategaeth i ddatblygu'r bartneriaeth gyda'r sector. Ond nid yw'r Pwyllgor am weld y Llywodraeth yn hybu datblygiad er ei fwyn ei hunan. Dylai twf y sector organig adlewyrchu'r farchnad a dylai polisi cyhoeddus ganolbwyntio ar hysbysu defnyddwyr a helpu cynhyrchwyr yng Nghymru i weld cyfleoedd a darparu cynhyrchion cystadleuol o safon uchel i'r farchnad. I'r perwyl hwn, rydym yn gobeithio y gwnaiff Llywodraeth y Cynulliad dderbyn argymhellion yr adroddiad hwn a'u rhoi ar waith.

Ar ran y Pwyllgor, carwn ddiolch i bawb a gyfrannodd, trwy roi tystiolaeth neu fel arall, i'r adolygiad.

Glyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
Hydref 2002

CYNNWYS

Cyflwyniad	1
Y Cylch Gorchwyl	2
Manteision Ffermio Organig	3
Cyrraedd y targed presennol	5
Rhagolygon i'r dyfodol o fewn y farchnad ddomestig	6
Barn y Pwyllgor ar ddyfodol ffermio organig yng Nghymru	7
Argymhellion	8
Atodiad A - Rhestr o'r rhai sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig	12
Atodiad B - Crynodeb o'r argymhellion	13
Atodiad C - Rhagolygon busnes a pherfformiad ariannol y system organig	14

Cyflwyniad

1. Mae marchnad bwyd organig y DU wedi datblygu ers yr 1970au, yn bennaf heb unrhyw gefnogaeth benodol oddi wrth y llywodraeth. Mae prynwyr, sydd bellach yn pryderu am oblygiadau amgylcheddol ac effeithiau eraill rhai arferion amaethyddol, wedi dangos eu bod yn fodlon talu prisiau uchel am fwydydd a gynhyrchwyd yn organig, gan felly helpu i wneud yn iawn am gynhyrchiant is a chostau uwch cynhyrchu bwyd organig. Mae'r farchnad wedi tyfu'n aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf ac erbyn hyn, gwerthir gwerth rhyw £1 biliwn yn y DU. Mae hwn, ochr yn ochr â chefnogaeth y Llywodraeth i droi'n organig a dymuniad nifer o ffermwyr i fabwysiadu dulliau ffermio mwy cynaliadwy, wedi arwain at gynnydd mewn cynhyrchu organig yng Nghymru o ryw 3,000 hectar o dir yn 1998 i bron 43,000 hectar yn 2002. Fel canran o allbwn amaethyddol Cymru, mae cynhyrchu organig bellach yn cynrychioli 3%, yn unol â gweddill y DU a'r cyfartaledd ar draws yr Undeb Ewropeaidd gyfan.

2. Mae Cymru wedi bod ar flaen y gad wrth ddatblygu'r sector yn y DU. Ym mis Mawrth 1999, cyhoeddodd Grŵp Strategaeth Organig y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth gynllun gweithredu ar gyfer y sector a oedd yn cynnwys targed i gynyddu cynhyrchiant i 10% o gynnyrch amaethyddol Cymru erbyn 2005. Yn ogystal â bod yr ardal gyntaf yn y DU i osod targed eglur yn y modd hwn, mae Cymru hefyd wedi arwain y ffordd drwy sefydlu Canolfan Organig Cymru (OCW) er mwyn helpu i weithredu'r strategaeth a darparu canolfan o gyngor a gwybodaeth arbenigol. Yn ddiweddar cafwyd cryn dipyn o ymdrech i integreiddio OCW gyda'r gwasanaethau ehangach a gynigir drwy Cyswllt Ffermio.

3. Er gwaethaf hyn, mae'r twf yn y sector yng Nghymru wedi arafu. Yn 2001, gwelwyd ton o gyflenwyr wrth i'r ffermwyr a gychwynnodd ar y gwaith o droi'n organig yn 1999 pan gyflwynwyd y Cynllun Ffermio Organig, ennill statws organig. Ar yr un adeg, golygodd clwy'r traed a'r genau y bu'n rhaid gohirio'r gweithgareddau oedd yn ymwneud â hysbysu ac ardystio cynhyrchwyr newydd. Er gwaethaf ymdrechion i annog cynhyrchwyr i ystyried troi'n organig fel opsiwn i adfer eu busnesau, cafwyd 3-4 gwaith yn fwy o gyflenwadau yn 2001 gan beri problemau marchnata difrifol a thanseilio hyder cynhyrchwyr. O ganlyniad, 41 o geisiadau gafwyd i'r Cynllun Ffermio Organig yn ystod y chwe mis hyd at ddiwedd Medi 2002 o'i gymharu â mwy na 260 yn 1999 pan gyflwynwyd y cynllun. Serch hynny, mae datblygiad y sector yn y dyfodol yn parhau yn ganolog ar gyfer gweld dyfodol cynaliadwy i amaethyddiaeth yng Nghymru, yn enwedig o ystyried camau diweddar y Comisiwn Ewropeaidd i roi mwy o sylw i'r amgylchedd yn y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Felly, yng ngwanwyn 2002, teimlodd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ei bod yn amserol cynnal archwiliad o'r llwyddiannau a welwyd a rhagolygon y sector.

Y cylch gorchwyl

4. Ym mis Ebrill 2002, cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl canlynol:

> *Asesu'r rhagolygon ar gyfer ffermio organig yn y dyfodol yng Nghymru, priodoldeb targedau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac i ba raddau y gellir eu cyflawni, a goblygiadau hynny i bolisïau ac o ran dyrannu adnoddau o fewn y gyllideb ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig.*

Derbyniwyd tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth y cyrff a'r unigolion a restrir yn Atodiad A.

Yn ogystal, clywyd tystiolaeth lafar yn y Pwyllgor oddi wrth y canlynol:

- Grŵp Strategaeth Organig y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth
- Dafydd Jones & Jonathan Rees, Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru
- Cymdeithas y Pridd
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Cyngor Defnyddwyr Cymru
- Dr Bernard Tinker, golygydd *Shades of Green; A Review of UK Farming Systems*, Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Lloegr, 2000
- Sainsbury's
- Tesco

5. Er mwyn i'r Pwyllgor ddysgu mwy am y sefyllfa, fe wnaethant ymweld â fferm ymchwil y Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER) yn Nhrawscoed a Rachel a Gareth Rowlands, sylfaenwyr *Rachel's Dairy*, y llaethdy organig cyntaf ym Mhrydain i gael ei ardystio. Derbyniwyd cyngor ac arweiniad hefyd oddi wrth Ganolfan Organig Cymru ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth ac oddi wrth swyddogion sy'n gweithio i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i bawb wnaeth ein helpu gyda'n gwaith.

6. Mae'r adroddiadau a'r argymhellion sy'n dilyn yn cynrychioli'r casgliadau y mae'r Pwyllgor wedi dod iddynt yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu arnynt er mwyn datblygu dyfodol cadarn a chynaliadwy i amaethyddiaeth yng Nghymru.

Manteision ffermio organig

7. Mae ffermio organig yn ceisio gweithio gymaint â phosib â systemau naturiol, gan osgoi gwrtaith synthetig, plaladdwyr a hyrwyddwyr tyfiant, a phwysleisio pwysigrwydd iechyd y pridd, lles anifeiliaid, gofal am yr amgylchedd a chynhyrchu bwyd iach a maethlon. Ategir y dull hwn o weithredu gan fframwaith ardystio gydag amcanion amgylcheddol a system archwilio annibynnol.

8. Er mwyn cyflawni'r nodau hyn mae'r cynhyrchwr organig yn cynhyrchu llai ond yn gorfod ysgwyddo costau uwch. Hyd yn hyn yn y DU mae'r costau hyn wedi eu trosglwyddo i'r prynwyr ar ffurf prisiau uwch. Ond mewn ymgais i ddenu mwy o gwsmeriaid llai ideolegol ac yn wyneb y pwysau rheoliadol a'r pwysau a roddir gan y cwsmeriaid ar amaethyddiaeth gonfensiynol i symud mewn cyfeiriad tebyg, mae prisiau cynnyrch organig wedi gostwng.

9. Wrth i economeg cynhyrchu organig newid, mae cefnogwyr y sector yn dadlau am gymorth ariannol oddi wrth y Llywodraeth i wneud yn iawn am y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth arferion ffermio eco-gyfeillgar. I'r perwyl hyn, rhaid i'r sector organig gystadlu gyda systemau amaethyddol eraill, sy'n hawlio eu bod hwythau'n bodloni gofynion y gymdeithas am fuddiannau o ran safon bwyd, lles anifeiliaid a'r amgylchedd. Yn ystod cyfnod yr ymchwil hon, cododd rhai cwestiynau ynghylch dilysrwydd rhai o'r honiadau a wneir am ffermio organig, yn enwedig y buddiannau amgylcheddol, iechyd a maeth[1].

Manteision amgylcheddol

10. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, amlinellodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) - ymgynghorydd statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar warchod natur - ei ystyriaeth ddiweddar o'r ymchwil oedd ar gael i rôl ffermio organig wrth gyflawni buddiannau amgylcheddol. Mae CCGC yn hyrwyddo ffermio organig fel un o gyfres o fesurau a fydd yn cyfrannu at ffordd fwy cynaliadwy o reoli cefn gwlad. Sail hynny yw: 'it has been demonstrated to deliver biodiversity benefits'[2]. Mae'r safbwynt hwn yn cydymffurfio â'r hyn a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig mewn adroddiad i'r Pwyllgor[3] ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn eu cynllun ar gyfer ffermio organig yn Lloegr[4].

11. Yr ydym yn ymwybodol bod eraill wedi mynegi pryderon. Er enghraifft, dywedodd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) wrth y Pwyllgor 'whilst many aspects associated with organic farming may be expected to bring positive benefits in terms of water quality and the water environment, there are some

1 ee tystiolaeth Dr Bernard Tinker, golygydd Shades of Green – A Review of UK Farming Systems a chyfraniad yr Asiantaeth Safonau Bwyd.
2 Cyflwyniad ysgrifenedig Cyngor Cefn Gwlad Cymru.
3 Gweler Adroddiad y Gweinidog i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig 3 Gorffennaf 2002 (ARD 11-02 (p1))
4 Cynllun Gweithredu i ddatblygu bwyd a ffermio yn Lloegr: DEFRA Gorffennaf 2002

issues which are of concern'. Yn enwedig gwnaeth yr Asiantaeth ganfod bod defnyddio cemegau amgen yn lle cemegau organoffosaidd ar gyfer dipio defaid dan systemau organig, yn gallu bod yn beryglus i anifeiliaid y dŵr[5].

12. Serch hynny, er gwaetha' pryderon AAC ac eraill ynghylch agweddau arbennig ar systemau ffermio organig, byddai'r Cynulliad yn cymeradwyo'r asesiad bod effaith amgylcheddol ffermio organig, ar y cyfan, yn gadarnhaol. Yr ydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o'r ymchwil a wnaed a fu'n sail i'r asesiad hwn wedi ei chwblhau mewn cynefinoedd tir isel. O ystyried natur tirlun amaethyddol Cymru, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd gan CCGC ac OCW i edrych ar effaith systemau organig ar eco-systemau tir mynydd.

Iechyd a maeth

13. I nifer o brynwyr. 'iechyd' yw'r prif reswm dros brynu nwyddau organig yn hytrach na bwydydd confensiynol[6]. Mae'n holl bwysig er mwyn twf parhaus y farchnad bod y sector yn medru cyfiawnhau'r honiadau bod ei arferion yn cyfrannu at safonau ansawdd a diogelwch bwyd uwch. Yn sicr mae'n rhaid fod yna dystiolaeth wyddonol i gefnogi'r honiad hwn[7] ac, i nifer fawr, mae'n synnwyr bod y mewnbynnau cemegol is sydd ynghlwm wrth gynhyrchu organig yn golygu bod y bwyd ryw ffordd yn fwy diogel ac yn fwy maethlon. Er hynny, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, gwnaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) hi'n gwbl glir nad yw bwyd organig, yn ôl ei asesiad, yn wahanol yn nhermau diogelwch a maethlondeb i fwyd confensiynol. Mae'r asesiad hwn wedi ei seilio ar ystyriaeth yr ASB o'r holl dystiolaeth wyddonol ac, fel Asiantaeth annibynnol y Llywodraeth a sefydlwyd i roi cyngor ar ddiogelwch bwyd, rhaid i'r Pwyllgor rhoi cryn bwys ar ei chasgliadau. Hoffwn felly weld yr ymchwil yn parhau er mwyn galluogi prynwyr i wneud dewisiadau cytbwys ynghylch rhinweddau cymharol bwydydd organig.

5 Mae tystiolaeth ysgrifenedig oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn nodi bod safonau ffermio organig presennol yn atal y defnydd o gemegau dip defaid organoffosfaidd (OP) ond caniateir (gellir ei weld fel annog) y defnydd o gemegau pyrethroid synthetig (SP), sy'n llawer mwy gwenwynol i nifer o wahanol anifeiliaid y dŵr. Fel arfer mae SPs o leiaf 100 gwaith yn fwy gwenwynig na OPs i anifeiliaid di-asgwrn cefn yn y dŵr.

6 Gweler cyfraniad ysgrifenedig Tesco a Chyngor Defnyddwyr Cymru.

7 Gweler tystiolaeth ysgrifenedig inter alia oddi wrth Gymdeithas y Pridd, Grŵp Organig Sir Benfro, IGER.

Cyrraedd y targed presennol

14. Bwriad y targed a osodwyd yn 1998 ydoedd cynyddu canran organig allbwn amaethyddol Cymru o 0.3% i 10% erbyn diwedd 2005[8]. Mae'r graff isod yn dangos y graddau tyfiant oedd eu hangen er mwyn cyflawni hyn. Mae'r graff yn dangos twf ar ffurf llinell syth a thwf esbonyddol



15. Yr oedd y twf gwirioneddol yn 1999 a 2000 yn agos at y llwybr tyfiant llinell syth ac yn llawer uwch na'r gyfradd flynyddol o 65% o dwf sydd ei hangen er mwyn cyflawni 10% erbyn 2005, ond fe fu iddo ostwng yn 2001. Er gwaetha'r gostyngiad hwn, byddai'n bosibl dal i fyny a chyflawni'r targed pe bai modd troi rhyw 26,000 ha o dir yn organig yn flynyddol. Yn realistig, mae'n annhebygol y gellid cynnal cymaint â hyn o dwf o ystyried y diffyg hyder ymysg nifer o'r rhai a allai droi eu ffermydd yn organig.

16. Er bod y Pwyllgor yn siomedig nad yw'n debygol y caiff y targed ei fodloni, nid y targed yw'r peth pwysicaf yn ein barn ni. Yr ydym yn pryderu mwy am sicrhau bod buddiannau cynhyrchu organig yn cael ei amlygu a bod y sector yn tyfu mewn ffordd gynaliadwy. Dylai'r argymhellion yn yr adroddiad hwn roi arwydd i gynhyrchwyr presennol a darpar gynhyrchwyr bod ein cefnogaeth i'r sector organig yn ddidwyll ac yn hirdymor. Ond dymuna'r Pwyllgor bwysleisio hefyd y dylai tyfiant y sector adlewyrchu gofynion y prynwr yn hytrach na'r angen i fodloni targedau'r llywodraeth. Mae un targed sy'n hawdd ei ddeall yn ddefnyddiol iawn i roi rhyw fath o arweiniad i'r diwydiant ond gall ddod yn nod ynddo'i hun. Yr ydym yn argymell bod **targedau yn y dyfodol yn cael eu seilio ar faint y farchnad - er enghraifft, drwy anelu at weld cynnyrch organig o Gymru yn cael rhan gyfwerth o farchnad organig y DU ag sydd gan gynnyrch confensiynol Cymru o'r farchnad gonfensiynol.** Yr ydym yn gwerthfawrogi y bydd yn rhaid wrth wybodaeth amserol a dibynadwy i fesur llwyddiannau yn erbyn targedau yn effeithiol.

8 Er bod y targed a osodwyd yn perthyn i'r canran o'r allbwn sy'n organig, mae'n ofynnol, yn sgil y data amserol a chynhwysfawr sydd ar gael, bod canran y tir a gaiff ei ffermio'n organig yn cael ei gymryd fel procsi.

Rhagolygon i'r dyfodol o fewn y farchnad ddomestig

17. Mae'r farchnad ddomestig ar gyfer bwyd organig wedi tyfu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf a bellach mae gwerth dros £1 biliwn. Dangoswyd yn nhystiolaeth y ddwy archfarchnad fwyaf yn y DU - Tesco a Sainsbury's - bod y twf yn debygol o barhau. Yr oedd Tesco yn rhagweld twf o 40% yng ngwerthiannau organig yn 2002/03 ac yn yr hirdymor dwf blynyddol o 10-15%. Yr oedd Sainsbury's hefyd yn disgwyl i'r farchnad barhau i fod yn fywiog a pharhau i ehangu.

18. Nid yw tyfiant yn y farchnad werthu o reidrwydd yn golygu cynnydd yn y farchnad bosibl i gynhyrchwyr Cymru. Bydd cynnyrch wedi ei fewnforio yn gyfrifol am ran o'r farchnad a bydd pob ymgais i gynyddu maint y farchnad organig yn rhoi pwysau ar y prisiau yn y siopau ac, yn ei dro, ar y prisiau wrth giât y fferm. Serch hynny, dylai cynhyrchwyr Cymru ystyried y twf a ragwelir yn y farchnad fel cyfle yn hytrach na bygythiad, cyn belled â'u bod yn canolbwyntio ar ofynion cwsmeriaid.

19. O'r dystiolaeth a ddaeth i law mae'n amlwg bod cwsmeriaid yn mynnu:

- *Gwerth am arian* - heb os mae pris yn rhwystr dros beidio â phrynu cynnyrch organig i nifer o brynwyr;
- *Y cynnyrch sydd ar gael a chyfleustra* - mae prynwyr ar hyd y blynyddoedd wedi cyfarwyddo â chynnyrch sydd ar gael drwy'r flwyddyn mewn ffyrdd sy'n gyfleus ar gyfer ffyrdd modern o fyw;
- *Bwyd iach a diogel*;
- *Bwyd eco-gyfeillgar gyda safonau lles anifeiliaid uchel.*

20. Mae pob un o'r rhain yn codi pwyntiau ar gyfer cynhyrchu organig. Er enghraifft:

- sut i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng sicrhau elw er gwaethaf llai o gynnyrch a chostau uwch a'r pwysau o du'r prynwyr a siopau am brisiau is;
- sut i sicrhau cyflenwad organig cyson a didor oddi wrth gynhyrchwyr bach;
- sut i wahaniaethu rhwng cynnyrch organig a bwyd confensiynol sy'n defnyddio llai o gemegau ac sy'n cael ei farchnata fel bwyd iach ac ecogyfeillgar.

Barn y Pwyllgor ar ddyfodol ffermio organig yng Nghymru

21. O ystyried ei fuddiannau amgylcheddol a'r rhagolygon ar gyfer dyfodol y sector, mae'r Pwyllgor yn gweld ffermio organig yn rhan bwysig o'n hymgyrch i sicrhau bod amaethyddiaeth Cymru yn gynaliadwy o safbwynt economaidd ac amgylcheddol. Mae'n cynnal y ddelwedd o Gymru fel gwlad sy'n cynhyrchu bwyd o safon uchel iawn mewn ffordd ecogyfeillgar ac mae gennym sylfaen gref i adeiladu arni drwy waith y Grŵp Strategaeth Amaeth-fwyd a bodolaeth OCW fel canolfan cyngor ac arweiniad arbenigol. Felly, yr ydym yn ystyried bod modd cyfiawnhau'r gefnogaeth gyhoeddus barhaus i'r sector, yn enwedig gyda'r diwygiadau tebygol i'r PAC a'r angen i wneud y gorau posibl o'r arian a ddaw trwy fodiwleiddio.

22. Mae troi eu ffermydd i gynhyrchu'n organig yn bendant yn opsiwn i ffermwyr sy'n ystyried eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Mae'r farchnad organig yn debygol o dyfu fel rhan o'r galw cyffredinol ymhlith prynwyr am fwyd o ansawdd da sydd wedi ei gynhyrchu at safonau uchel o ran gofal amgylcheddol a lles anifeiliaid. Ond wrth i bwysau'r farchnad a'r diwygiadau i'r PAC wthio amaethyddiaeth gonfensiynol i'r un cyfeiriad, dylai ffermwyr fod yn ymwybodol y gall y premiymau ar gyfer cynnyrch organig ddod o dan bwysau.

23. Yn ddiweddar, mae'r sector wedi profi anawsterau economaidd tebyg i weddill y byd amaeth wrth i anghydbwyseddau cynhyrchu, cystadleuaeth gyda mewnforion a phroblemau gyda'r gadwyn gyflenwi roi pwysau ar brisiau. Mae hyn yn dangos mai nid ateb i holl broblemau'r diwydiant amaeth yng Nghymru yw cynhyrchu organig - yn union fel a welir gyda'r sector confensiynol, dim ond ffermydd organig o ansawdd uchel ac sydd wedi eu rheoli'n dda fydd yn ffynnu.

24. Wrth ddangos ein cefnogaeth sylfaenol i'r sector fel agwedd ar bolisi amaethyddol cynaliadwy, nid yw'r Pwyllgor yn dymuno gweld y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â'i ddatblygu er ei fwyn ei hun. Yn hytrach, dylai datblygiad y sector organig adlewyrchu gofynion y farchnad a dylai polisi cyhoeddus anelu at roi gwybodaeth i brynwyr a helpu cynhyrchwyr Cymru adnabod cyfleoedd a rhoi nwyddau cystadleuol o safon uchel i'r farchnad.

Yr ydym yn gwneud yr argymhellion canlynol er mwyn helpu'r broses.

Argymhellion

Taliadau Cynnal

25. Y DU yw un o ychydig wledydd yr Undeb Ewropeaidd nad yw'n cynnig taliadau cynnal parhaus i gynhyrchwyr organig er y gwnaeth DEFRA gyhoeddi'n ddiweddar ei fwriad i ddarparu taliadau parhaus i ffermwyr organig yn Lloegr ar ôl iddynt droi'n organig. Hyd yn hyn, mae'r taliadau cynnal wedi canolbwyntio ar gefnogaeth wrth iddynt droi'n organig gyda'r cynhyrchwyr ar ôl hynny yn dibynnu ar y farchnad. Gwnaeth nifer ddadlau o blaid cyflwyno rhyw fath o daliadau cynnal parhaus ar gyfer cynnal cynhyrchwyr organig. Mae amaethyddiaeth eisoes yn dibynnu'n ormodol ar nawdd cyhoeddus ac mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dadleuon o blaid ac yn erbyn cyfnewid un math o gefnogaeth i'r farchnad am un arall. Ar y cyfan, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid annog a chefnogi cynhyrchu organig oherwydd:

- mae'n cyfrannu at nodau ehangach y Cynulliad ar gyfer diwydiant a systemau amaethyddol cynaliadwy; a
- dylid sicrhau nad yw cynhyrchwyr yng Nghymru o dan anfantais yn y farchnad mewn perthynas â chynhyrchwyr yn Lloegr a gweddill Ewrop.

Mae'r Pwyllgor yn argymell **y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno fel mater o frys gynllun ar gyfer talu taliadau cynnal parhaus wedi'i addasu at anghenion Cymru. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut i'w ariannu yn y tymor byr, efallai drwy ailgyfeirio'r arian sy'n weddill o'r Cynllun Ffermio Organig presennol.**

Integreiddio cefnogaeth organig â mesurau amaeth-amgylcheddol eraill

26. Mae'r prif reswm dros dalu arian cyhoeddus i gynhyrchwyr organig yn deillio o'r manteision amgylcheddol cyhoeddus y mae cynhyrchu bwydydd organig yn eu rhoi. Fel a nodwyd eisoes, y manteision amgylcheddol hyn sydd wrth wraidd y diwygiadau arfaethedig i'r PAC ac i bolisïau eraill y Cynulliad Cenedlaethol. Yn yr hirdymor felly mae'r Pwyllgor yn argymell **y dylai cefnogaeth i ffermio organig fod yn rhan o gyfres o gynlluniau amaeth-amgylcheddol integredig yng Nghymru**. Gallai'r taliadau cynnal fod ar ffurf stiwardiaeth organig fel rhan o gynllun amaeth-amgylcheddol cyffredinol ehangach. Bydd y Pwyllgor yn ystyried ffurf cynlluniau amaeth-amgylcheddol y dyfodol yng Nghymru yn ei brif archwiliad nesaf.

Cyllid

27. Mae'r Pwyllgor yn argymell y **dylai taliadau cynnal i ffermwyr organig ac integreiddio cefnogaeth i ffermwyr organig o fewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, gael eu hystyried fel blaenoriaethau i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi ystyried cyllido a defnyddio adnoddau sy'n tarddu o fodiwleiddio**.

Y gadwyn gyflenwi

28. Mae ansefydlogrwydd y gadwyn gyflenwi yn fater sy'n effeithio ar bob un o'r prif sectorau organig yng Nghymru. Mae'r sector llaeth organig wedi diodde'n drwm gan y problemau diweddar o orgyflenwi tra bod cydlynu'r gadwyn gyflenwi yn broblem i'r sector cig organig a rhag-farchnata yn broblem i'r sector garddwrol.

29. Mae'r angen am gadwyni cyflenwi mwy integredig yn angen sy'n gyffredin i amaethyddiaeth Cymru gyfan, nid y sector organig yn unig. Yn wir mae bodolaeth grŵp strategaeth organig penodol o fewn y Bartneriaeth Amaeth-fwyd yn rhoi mantais i'r sector drwy rwydwaith sydd eisoes wedi ymrwymo i alluogi'r math o gydweithredu ac integreiddio sydd ei angen. Felly mae'r Pwyllgor yn croesawu sefydlu'r Grŵp Strategaeth Garddwrol o dan adain y Bartneriaeth, ac is-grwp garddwriaeth organig i'w gysylltu â'r Grŵp Strategaeth Organig. Yr ydym yn argymell bod **Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) yn parhau i roi cefnogaeth i grwpiau cynhyrchwyr sy'n gyson ag agwedd strategol tuag at ddatblygu'r farchnad**. Rhaid i'r sector cyfan gydnabod bod ansefydlogrwydd yn y gadwyn gyflenwi yn fygythiad difrifol i lwyddiant hirdymor a bod cydweithio a chydlynu gwell rhwng unigolion a grwpiau cynhyrchwyr yn hanfodol er mwyn gwella proses gynllunio, cyflenwi a darparu cyfleusterau prosesu priodol i'r farchnad yng Nghymru.

30. Yn gysylltiedig â hyn, hoffai'r Pwyllgor ail ddatgan ei gefnogaeth i ddarparu cyngor a gwybodaeth safonol i'r farchnad drwy OCW a Cyswllt Ffermio er mwyn sicrhau bod cynhyrchwyr a phroseswyr yn gallu gwneud penderfyniadau doeth ynghylch troi'n organig, marchnata a cheisio am grantiau. I'r perwyl hwn yr ydym yn argymell bod **Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i Ganolfan Organig Cymru.**

31. Bydd y datblygiadau a gyhoeddwyd yng Nghynllun Gweithredu Lloegr yn gwella'r wybodaeth am y farchnad adwerthu sydd ar gael ar lefel Prydeinig. Dylai gwybodaeth ar lefel Cymru ganiatau i'r rheini sy'n gweithio yn y sector ganfod cyfleoedd yn y farchnad ac asesu llwyddiant wrth fanteisio arnynt. Er mwyn sicrhau bod sail cadarn ar gyfer datblygu polisïau yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid **casglu gwybodaeth ddibynadwy, amserol a pherthnasol ar hyd y gadwyn gyflenwi organig.**

32. Gwerthir dros dri chwarter o'r holl fwydydd organig drwy'r siopau mwyaf ac, fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae'r prif archfarchnadoedd yn rhagweld twf sylweddol mewn gwerthiannau organig. Felly, mae'n hanfodol bod cynhyrchwyr organig yn elwa o'r farchnad. O ystyried allbwn weddol fach y rhan fwyaf o gynhyrchwyr organig ym Mhrydain, bydd cyd-gysylltu rhwng ffermwyr a phroseswyr yn hanfodol os yw'r ffermwyr am fodloni'r galw am gynnyrch oddi wrth y gwerthwyr a derbyn prisiau teg. Mae'r Pwyllgor yn argymell felly bod **Llywodraeth Cynulliad Cymru a grŵp sector y Bartneriaeth Amaeth-Fwyd yn ceisio hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth a chyd-berthynas sy'n fuddiol i'r archfarchnadoedd a sector organig Cymru.**

33. Nid yw pob cynhyrchydd organig yng Nghymru yn dymuno sianelu'u hallbwn drwy'r archfarchnadoedd. Byddai'n well gan rai werthu'n uniongyrchol drwy farchnadoedd ffermwyr, cynlluniau blwch neu drefniadau gyda siopau neu arlwywyr lleol. Mae'r Pwyllgor wedi hyrwyddo manteision cysylltiadau lleol mewn gwaith cynharach[9] ac felly'n argymell bod **OCW/Cyswllt Ffermio, grŵp strategaeth y sector a chyrff cyhoeddus eraill sy'n hyrwyddo datblygiadau marchnata o'r math yn parhau i dderbyn cefnogaeth**.

34. Gellir gwneud cyfraniad pellach at ddatblygu marchnadoedd lleol ar gyfer cynhyrchwyr organig drwy bolisïau caffael cyhoeddus. Mae annog cyrff cyhoeddus i arfer polisïau caffael lleol sy'n seiliedig ar ansawdd yn gam arall a awgrymwyd gan y Pwyllgor y llynedd yn dilyn ein harchwiliad ar arallgyfeirio i'r economi wledig. I'r perwyl hwn yr ydym yn croesawu'r cynllun peilot presennol gyda Chyngor Sir Powys, Cymdeithas y Pridd a Phrifysgol Caerdydd. Yr ydym yn argymell y dylai **profiad cynlluniau peilot sy'n annog cyrff cyhoeddus i gaffael nwyddau lleol gael ei weithredu'n ehangach.**

35. Wrth argymell y dylai datblygiadau'n y dyfodol gael eu harwain gan y farchnad, mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl y sector cyhoeddus wrth gynyddu'r galw. Mae'r Pwyllgor yn argymell y **dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r WDA sicrhau bod anghenion unigryw y sector organig yn cael eu bodloni fel rhan o'u hagwedd gyffredinol tuag at farchnata a hyrwyddo nwyddau amaethyddol Cymru. Yn ogystal, dylid rhoi ystyriaeth i ymgyrch gyhoeddusrwydd i esbonio beth a olygir wrth gynhyrchu organig a'r hyn all prynwyr ei ddisgwyl oddi wrth fwydydd organig.**

Yr hadau organig sydd ar gael

36. O 2004 ymlaen, bydd rhaid i'r hadau a ddefnyddir mewn systemau cynhyrchu organig gael eu cynhyrchu'n organig. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i 35% o'r gymysgedd hadau fod yn organig ond mae hyd yn oed hyn yn rhoi pwysau ar y cyflenwad o hadau porthiant organig. Mae tystiolaeth a ddarparwyd gan Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd (IGER) ar gyfer y Pwyllgor yn awgrymu, er mwyn cyrraedd y targed 10% o gynhyrchu organig erbyn 2005, a chydymffurfio â'r rheoliadau hadau organig 100%, bydd angen 400 tunnell o hadau glaswellt a 50 tunnell o hadau codlysiau yng Nghymru bob blwyddyn. Ar hyn o bryd 15 tunnell o hadau porthiant organig a gaiff ei gynhyrchu yn y DU, ac nid oes hadau porthiant yn cael eu cynhyrchu o gwbl yng Nghymru. Bydd diffyg hadau addas yn atal datblygiad y sector yng Nghymru ac yn golygu bod ffermwyr yn ddibynnol ar hadau sydd wedi eu mewnforio nad ydynt fel arfer yn addas ar gyfer amodau hinsawdd Cymru. Felly mae'r Pwyllgor yn argymell bod **Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi strategaeth yn ei lle i annog cyflenwi hadau organig y cnydau priodol er mwyn sicrhau datblygiad parhaus y sector organig yng Nghymru.**

9 Arallgyfeirio'r economi wledig Mehefin 2001.

Ymchwil a datblygu

37. Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod ymchwil a datblygu yn flaenoriaeth ac mae'n pwysleisio'r angen bod polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn seiliedig ar wybodaeth gadarn ac ar dystiolaeth. I'r perwyl hwn yr ydym yn ffodus iawn yng Nghymru bod gennym ganolfannau o ragoriaeth megis IGER sy'n gallu helpu cynhyrchwyr organig a llunwyr polisi cyhoeddus. DEFRA ac adrannau eraill Whitehall sy'n gyfrifol am reoli'r prif gyllidebau ymchwil yn hytrach na Llywodraeth Cynulliad Cymru. Felly, yr ydym yn croesawu'r mesurau a welwyd yng Nghynllun Gweithredu Lloegr ar gyfer Ffermio Organig i gynyddu ac adnabod cronfeydd ymchwil ar gyfer y sector. Yr ydym yn argymell y dylai **Llywodraeth Cynulliad Cymru defnyddio'i dylanwad er mwyn llywio adnoddau ymchwil tuag at faterion sydd o arwyddocâd arbennig i Gymru** megis effaith amgylcheddol ffermio organig ar ecosystemau'r tir mynydd. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi ymdrechion CCGC a OCW yn hyn o beth ac unrhyw waith arall a fydd yn egluro cyfraniad cynhyrchu organig at ein hamcanion amgylcheddol ehangach. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol nad yw'r ddadl ar effeithiau iechyd a maeth bwydydd organig wedi ei datrys a bod angen cwblhau gwaith pellach yn y maes.

Rhestr o'r rhai sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Defnyddwyr Cymru
Cambrian Organics Cyf
Canolfan Ymchwil Elm Farm
Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru Cyf
Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Cymdeithas y Pridd
Dr P.B. Tinker
Everard Smith a'r Athro Terry Marsden, Prifysgol Caerdydd
Grŵp Organig Sir Benfro
Grŵp Strategaeth Organig Partneriaeth Bwyd-Amaeth Cymru
RSPB Cymru
Sainsbury's
Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd
Tesco
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol Ffermwyr Cymru
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Crynodeb o'r argymhellion

a) dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno fel mater o frys gynllun ar gyfer talu taliadau cynnal parhaus wedi'i addasu at anghenion Cymru (paragraff 25).

b) y dylai cefnogaeth i ffermio organig fod yn rhan o gyfres o gynlluniau amaeth-amgylcheddol integredig yng Nghymru (paragraff 26).

c) dylai taliadau cynnal i ffermwyr organig ac integreiddio cefnogaeth i ffermwyr organig o fewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, gael eu hystyried fel blaenoriaethau i Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi ystyried cyllido a defnyddio adnoddau sy'n tarddu o fodiwleiddio. (Paragraff 27).

d) bod targedau yn y dyfodol yn cael eu seilio ar faint y farchnad (paragraff 16).

e) bod Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) yn parhau i roi cefnogaeth i grwpiau cynhyrchwyr sy'n gyson ag agwedd strategol tuag at ddatblygu'r farchnad. (paragraff 29).

f) bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i ddarparu cymorth ariannol i Ganolfan Organig Cymru (Paragraff 30).

g) dylid casglu gwybodaeth ddibynadwy, amserol a pherthnasol ar hyd y gadwyn gyflenwi organig (paragraff 31).

h) bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a grŵp sector y Bartneriaeth Amaeth-Fwyd yn ceisio hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth a chyd-berthynas sy'n fuddiol i'r archfarchnadoedd a sector organig Cymru (Paragraff 32).

i) bod OCW/Cyswllt Ffermio, grŵp strategaeth y sector a chyrff cyhoeddus eraill sy'n hyrwyddo datblygiadau marchnata o'r math yn parhau i dderbyn cefnogaeth (Paragraff 33).

j) dylai profiad cynlluniau peilot sy'n annog cyrff cyhoeddus i gaffael nwyddau lleol gael ei weithredu'n ehangach (paragraff 34).

k) dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r WDA sicrhau bod anghenion unigryw y sector organig yn cael eu bodloni fel rhan o'u hagwedd gyffredinol tuag at farchnata a hyrwyddo nwyddau amaethyddol Cymru. Yn ogystal, dylid rhoi ystyriaeth i ymgyrch gyhoeddusrwydd i esbonio beth a olygir wrth gynhyrchu organig a'r hyn all prynwyr ei ddisgwyl oddi wrth fwydydd organig (paragraff 35).

l) bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi strategaeth yn ei lle i annog cyflenwi hadau organig cnydau priodol er mwyn sicrhau datblygiad parhaus y sector organig yng Nghymru (Paragraff 36).

m) dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddefnyddio'i dylanwad er mwyn llywio adnoddau ymchwil tuag at faterion sydd o arwyddocâd arbennig i Gymru (paragraff 37).

Rhagolygon busnes a pherfformiad ariannol y system organig (darparwyd y wybodaeth gan Ganolfan Organig Cymru)

Cynhyrchu llaeth organig

Rhagolygon y Farchnad

Ym 1999 a 2000, gwnaeth nifer o ffermwyr droi'n organig mewn ymateb i'r galw yn y farchnad, y cymorth mwy hael oedd ar gael i droi'n organig ac apêl pris sefydlog (29.5 cyl) am laeth organig. Derbyniodd nifer o'r ffermydd hyn statws organig yn 2001 a 2002, gan gynyddu'r cyflenwad o laeth organig 3-400%, a arweiniodd at orgyflenwi difrifol er gwaetha' twf parhaus yn y farchnad. Gwerthwyd llawer iawn o laeth (tua 50% o'r hyn a gynhyrchwyd) i'r farchnad gonfensiynol ac o ganlyniad bu gostyngiad yn y pris a roddwyd i'r cynhyrchwyr organig ar gyfartaledd.

Yng ngwanwyn 2002 gwnaeth y gorgyflenwad llaeth ddechrau sefydlogi. Serch hynny, mae nifer o gynhyrchwyr sydd yn y broses o droi'n organig wedi oedi cyn troi'r stoc yn gyfangwbl organig gan fod y farchnad laeth wedi crebachu. Nid oes grŵp llaeth wedi cynnig contractau llaeth ers haf 2001. Mae'n annhebygol iawn y gwelwn y sefyllfa'n newid yn y dyfodol agos, er o ganlyniad i'r lleihad yn nifer y ffermwyr newydd sy'n troi'n organig a thwf sefydlog yn y farchnad werthu o ryw 20% y flwyddyn, mae nifer o ddadansoddwyr y farchnad yn rhagweld gwelliant yn y cyflenwad a'r galw erbyn 2003.

Er mwyn helpu'r broses, lansiodd Cwmni Cydweithredol Cyflenwyr Llaeth Organig Cymru a Calon Wen, y ddau brif gwmni llaeth organig arbenigol cydweithredol yng Nghymru, eu mentrau eu hunain i hyrwyddo manteision amgylcheddol bwyta ac yfed cynnyrch llaeth organig. Yn ogystal, mae nifer o siopau wedi cychwyn ymgyrchoedd i hyrwyddo cynnyrch llaeth organig, er ei bod yn rhy fuan ar hyn o bryd i asesu eu heffaith.

Yn y tymor byr, tra bod rhai cynhyrchwyr yn derbyn gymaint â 29.5 ceiniog y litr (cyl) am ganran o'u llaeth, mae gwerthu'r gweddill fel llaeth confensiynol yn gostwng y pris ar gyfartaledd i 24 cyl neu lai. Mae'r cynhyrchwyr eraill sydd â chontractau cyflenwi yn cael 21-22 cyl, a'r rhai sy'n gwerthu ar y marchnadoedd confensiynol yn unig yn cael 18-19 cyl.

Perfformiad mentrau llaeth

A bwrw bod ffermwyr llaeth organig yn cael 23cyl, a chynhyrchwyr llaeth confensiynol yn cael 18cyl, mae'r elw gros o bob buwch yn uwch wrth gynhyrchu'n organig na chynhyrchu'n gonfensiynol. Mae'r gwahaniaeth o ran pris o 5 cyl yn digolledu'r ffermwr am lai o gynnyrch a chostau uwch, ond petai'n rhaid gwerthu llaeth organig am brisiau confensiynol, yna byddai'r elw gros o bob buwch yn is o dan reolaeth organig. Er bod llai o borthiant wedi'i brynu yn cael ei ddefnyddio, gall prisiau uwch porthiant organig olygu gwario mwy. Mae'n debyg y gall y costau gynyddu mwy fyth pan fydd yr hawl presennol i roi canran o borthiant anorganig yn y deiet yn dod i ben yn 2005. Gall cynlluniau iechyd anifeiliaid y safonau organig, hefyd olygu mwy o gostau.

Ond y gwahaniaeth mwyaf rhwng perfformiad y naill system a'r llall yw'r cyfraddau stocio. Un rheswm yw bod maint cnydau porthiant yn llai am fod llai o wrtaith yn cael ei ddefnyddio. Ond y rheswm pennaf yw bod llai o ddibyniaeth ar borthiant wedi'i brynu sy'n golygu bod yn rhaid cynhyrchu mwy o borthiant ar y fferm ar gyfer pob buwch. O ganlyniad i'r gwahaniaeth yn y cyfraddau stocio, mae premiwm o 5 cyl yn rhoi elw gros tebyg iawn i'r hyn a geir trwy ddulliau confensiynol, tra bod gwerthu am brisiau confensiynol un golygu lleihad sylweddol yn yr hyn a geir o bob hectar.

Elw gros ar gyfer buchesi confensiynol ac organig: Prisiau 2001/02

	Confensiynol	Organig
Cynnyrch llaeth (litr/buwch)	5,800	5,500
Pris llaeth (cyl)	18	23
Cyfraddau stocio (uned da byw/ha)	2.2	1.7
£/buwch		
Cynnyrch ariannol	£1,044	£1,265
llai		
Porthiant wedi'i brynu	£195	£220
Costau eraill	£110	£130
Cyfanswm y Costau amrywiol	£305	£350
yn golygu		
Elw gros	£739	£915
Prisiau confensiynol	-	£640
llai		
Costau Porthiant	£85	£60
yn golygu		
Elw gros gan gynnwys porthiant	£654	£855
Elw gros gan gynnwys porthiant (£/ha)	£1,373	£1,368
Prisiau confensiynol	-	£1,037

Incwm fferm net ar ffermydd llaeth confensiynol ac organig: 2000/01

	Confensiynol	Organig
Cynnyrch llaeth (litr/buwch)	5,743	5,053
Pris llaeth (cyl)	17	29
Maint (ha)	58	69
£/hectar		
Cynnyrch llaeth	£1,254	£1,595
Cynnyrch arall	£400	£387
Cyfanswm cynnyrch	£1,654	£1,982
llai		
Porthiant	£372	£281
Costau eraill da byw	£177	£266
Costau cnydau	£100	£84
yn golygu		
Elw'r fferm gyfan	£1,005	£1,351
llai		
Llafur	£161	£290
Peiriannau	£293	£285
Costau sefydlog eraill	£319	£315
yn golygu		
Incwm fferm net	£232	£461

Ffynhonnell: Sefydliadau Astudiaethau Gwledig, PCA

Gallu'r fferm i wneud elw

Mae data arolygon 2000/01 ar gyfer y sector llaeth yng Nghymru yn dangos rhai gwahaniaethau allweddol rhwng buchesi confensiynol ac organig. Gwnaeth y premiwm organig o 12 cyl yn 2000/01 roi mantais o dros £300/ha o ran y cynnyrch llaeth a chyfanswm y cynnyrch yn ogystal ag o ran elw gros y fferm gyfan. Yr oedd costau llafur uwch yn lleihau'r fantais, ond yr oedd lefelau incwm net y ffermydd organig yn parhau yn uwch. Gan fod y sampl o ffermydd organig mor fach, dylid bod yn ofalus iawn wrth ddehongli'r data oherwydd bod gan werthoedd eithafol ar ffermydd unigol effaith sylweddol ar y gwerthoedd ar gyfartaledd (e.e ychydig iawn o gynnyrch ar un fferm, costau llafur uchel iawn ar fferm arall).

Os yw'r pris o 23cyl o elw gros yn y tabl uchod yn gywir, yna byddai cyfanswm cynnyrch y fferm a gwerth yr elw gros wedi bod yn debyg rhwng y ddau grŵp, a byddai incwm net y fferm o £175/ha yn is ar gyfer y grŵp organig oherwydd y costau llafur. Byddai rhoi prisiau confensiynol i'r sampl organig yn golygu incwm net negyddol y fferm o -£128/ha, sef £360/ha yn is nag ar ffermydd confensiynol.

Y gost o droi'n organig

Mae'r modelau a baratowyd ar gyfer DEFRA i werthuso effaith troi'n organig ar wahanol fathau o ffermydd yn rhoi goleuni pellach i ni ar rôl y premiwm organig a thaliadau'r Cynllun Ffermio Organig, yn ogystal â gwahanol strategaethau posibl ar gyfer troi'n organig. Mae'r tabl yn dangos yn glir bwysigrwydd y premiwm organig, sydd wedi ei ddangos ar wahân i'r elw gros ar brisiau confensiynol. Hyd yn oed gyda'r premiymau llai a welwyd yn 2001, mae'r model yn dangos peth potensial i gynyddu enillion o dan reolaeth organig, ond seiliwyd hyn ar dybiaeth y byddai perfformiad y systemau organig yn gymharol uwch na ffigurau'r elw gros a data'r arolwg Cymreig a geir uchod. Pan fo premiymau ar gael, gall troi'r fferm gyfan yn organig ('ar garlam') ddod â manteision ariannol, gan fod modd cael y premiymau hynny'n gynt, ond gall troi'n organig gam wrth gam, sy'n cynnwys troi rhannau o'r fferm yn organig dros gyfnod o amser, helpu i ledaenu peryglon a chostau dysgu wrth droi'n organig, yn enwedig os nad yw'r premiymau'n sicr.



Crynodeb

Gall cynhyrchu llaeth yn organig fod yn ddewis buddiol i ffermwyr llaeth, ond fe all ddibynnu'n sylweddol ar y pris a geir ac ar gadw costau o dan reolaeth. Mae angen premiwm o 5-6cyl ar fferm gyffredin er mwyn sicrhau perfformiad tebyg i berfformiad confensiynol. Ond os yw'r elw a geir o ffermydd confensiynol eisoes yn rhy isel, naill ai fel cyfartaledd o ganlyniad i brisiau isel yn y sector, neu o ganlyniad i berfformiad gwael neu ffactorau eraill, ni fydd derbyn incwm tebyg drwy ddulliau organig yn datrys unrhyw broblemau ariannol. Felly, ni ddylid edrych ar botensial y sector organig fel ffordd o achub ffermydd sy'n gwneud colled, ond yn hytrach fel ffordd o gynhyrchu ar ffermydd llwyddiannus sy'n dod â manteision sylweddol i'r amgylchedd, ac ar gyfer gweithgareddau marchnata arbenigol a phrosesau ychwanegu at werth er mwyn cyfrannu at ddatblygiad gwledig lle bo hynny'n bosibl.

Cynhyrchu defaid ac eidion organig

Rhagolygon y Farchnad

Yr oedd cyfnod 2001/02 yn gyfnod anodd iawn i gynhyrchwyr da byw wrth i Glwy'r Traed a'r Genau danseilio unrhyw ddatblygiadau eraill yn y farchnad. Yn 2001, gwelwyd cynnydd yn y cyflenwad o gig eidion a defaid organig gan i nifer o gynhyrchwyr gwblhau'r gwaith o droi'n organig rhwng 2000 a 2001. Gwnaeth y cynnydd hwn helpu i fodloni'r galw cynyddol a chymryd lle mewnforion mewn nifer o siopau. Serch hynny, bu'n rhaid i gynhyrchwyr y DU wynebu mewnforion rhatach a chadwyni cyflenwi mewnforion cadarnach sy'n cynnig cyflenwad cyson ac o safon wedi ei gwarantu, yn enwedig yn y sector cig eidion organig. Er hynny, cafwyd problemau gorgyflenwi dros dro gyda chig oen a chig eidion organig gan arwain at ostyngiad mewn prisiau gyda chig oen yn gwerthu rhwng 220 a 270c y kg/dw a chig eidion rhwng 220 a 240 ceiniog y kg/dw.

Mae'r galw am gig eidion a defaid organig yn parhau i gynyddu gyda chymorth ymgyrchoedd hyrwyddo ar y cyfryngau ac mewn siopau ledled y wlad. Mae gweithgareddau nifer o grwpiau cynhyrchwyr megis Graig Farm, Cwmni Cydweithredol Marchnata Da Byw Organig, Cambrian Organics a'r Welsh Hook Meat Centre, yn ogystal â phrynwyr y siopau mawr (gan gynnwys Waitrose, M&S, Tesco a Sainsbury), wedi hybu'r farchnad ar gyfer da byw, cig a chynnyrch cig yn ddiweddar. Serch hynny, mae angen cydweithio pellach a chynllunio da er mwyn sicrhau sefydlogrwydd ar gyfer marchnata a chynhyrchu cig oen ac eidion Cymru. Mae'r agweddau canlynol yn peri cryn bryder i'r sector da byw organig:

- Gan fod cig oen organig yn gynnyrch tymhorol, mae'r farchnad yn cael ei gorlwytho yn yr hydref. Byddai amrywio'r tymhorau wyna a phesgi hesbinod sydd wedi eu cadw dros y gaeaf yn ymestyn y cyfnod marchnata.
- Gan fod mwy o unedau stôr nag o unedau pesgi, mae llawer o ddefaid stôr organig yn cael eu pesgi ar ffermydd anorganig a'u gwerthu i farchnadoedd confensiynol.
- Rhaid i ffermydd tir mynydd gydweithio gyda ffermydd organig llawr gwlad er mwyn sicrhau bod tir pesgi ar gael i'r stoc.
- Mae'r posibilrwydd y bydd lladd-dai bach yn rhoi'r gorau i ardystio cynnyrch organig neu yn cau'n gyfangwbl yn tyfu o ganlyniad i ffioedd archwilio cig uchel. Mae hyn yn parhau i beri pryder.

Mae'r rhagolygon ar gyfer cig oen ac eidion organig yn awgrymu y bydd y cyflenwad yn parhau i gynyddu yn ystod 2002/03. Felly, mae'n bwysig iawn cynllunio'r cynhyrchu i fodloni'r galw er mwyn i'r cynhyrchwyr hynny sy'n ystyried troi'n organig lwyddo.

Crynodeb o'r elw gros

Y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar berfformiad ffermydd defaid a chig eidion organig yw prisiau, cyfraddau stocio a chostau porthiant, gan y bydd y cyfraddau tyfiant yn weddol debyg neu ychydig yn is na'r lefelau confensiynol. Ers 1996, mae prisiau da byw organig wedi aros yn weddol statig, er y gwnaeth prisiau

confensiynol ddisgyn yn sylweddol o ganlyniad i BSE a Chlwy'r Traed a'r Genau. Arweiniodd hwn at bris 'premiwm' er i hwnnw leihau yn 2001/02 wrth i brisiau confensiynol wella. Mae'r gwahaniaeth ym mhrisiau cig oen erbyn hyn yn debyg i'r hyn ydoedd bum mlynedd yn ôl.

Ar gyfer mentrau cig eidion mae'r prisiau uwch yn arwain at wella perfformiad uwch pob anifail, er gwaetha' costau uwch y bwyd ar gyfer pesgi gwartheg organig, ac mae'r prisiau uwch hefyd yn gwneud iawn am y cyfraddau stocio llai. Serch hynny, heb y prisiau uwch am gynnyrch organig, byddai pesgi gwartheg organig yn cynhyrchu llai o elw na dulliau confensiynol. Ar gyfer mentrau gwartheg sugno, mae costau porthiant sydd wedi'i brynu yn llai, felly mae potensial i gael perfformiad tebyg hyd yn oed gyda phrisiau confensiynol.

Elw gros ar gyfer cig eidion - dulliau organig a chonfensiynol, prisiau 2001/02

	Gwartheg sugno		Pesgi 24-mis	
	Confensiynol	**Organig**	**Confensiynol**	**Organig**
Prisiau Gwartheg Stôr (£/kg lw)	1	1.25	-	-
Prisiau wedi'u Pesgi (£/kg dcw)	-	-	1.7	2.2
Pwysau (kg/y pen lw neu dcw)	270	270	290	290
£ y pen				
Eu gwerthu heb gynnwys cost eu prynu	£246	£300	£212	£287
â				
Taliadau cynnal	£167	£167	£162	£162
yn golygu				
Cyfanswm y cynnyrch	£413	£467	£374	£449
llai				
Porthiant	£90	£60	£60	£90
Costau eraill	£115	£115	£75	£75
Cyfanswm y costau amrywiol	£205	£175	£135	£165
yn golygu				
Elw gros	£208	£292	£239	£284
llai				
Costau pori	£90	£75	£70	£55
yn golygu				
Elw gros yn cynnwys pori	£118	£217	£169	£229
Cyfraddau stocio (pen/ha)	1.5	1.2	2.0	1.6
Elw gros yn cynnwys pori (£/ha)	£177	£260	£338	£336
Elw gros ar brisiau confensiynol (£/pen)	-	£163	-	£154
Elw gros ar brisiau confensiynol (£/ha)	-	£196	-	£247

Ffynhonnell: Sefydliad Astudiaethau Gwledig, PCA

Ar gyfer mentrau defaid, mae perfformiad corfforol y ddafad yn debyg o dan y ddwy system, ar yr amod bod yna strategaethau i reoli iechyd a pharasitiaid, gan gynnwys eu cyd-bori â gwartheg a rheoli pori. Er hynny, gyda phrisiau confensiynol yn codi, nid yw prisiau organig yn arwain at fwy o elw'r hectar. Gyda phrisiau confensiynol, gall perfformiad ariannol defaid organig a chonfensiynol fod yn debyg, ond fe welir lleihad sylweddol yn y perfformiad yr hectar.

Elw gros ar gyfer defaid organig a chonfensiynol, prisiau 2001/02

	Llawr Gwlad		**Tir Mynydd**	
	Confensiynol	**Organig**	**Confensiynol**	**Organig**
Pris oen (£/kg dcw)	£2.30	£2.60	£2.30	£2.60
Nifer o wyn pesgi y famog	1.2	1.2	1	2
Pwysau byw yr oen (kg)	40	38	36	34
£ y famog				
Eu gwerthu heb gynnwys cost eu prynu	£59	£63	£42	£44
â				
Taliadau Cynnal	£13	£13	£17	£17
yn golygu				
Cyfanswm y cynnyrch	£72	£76	£59	£61
llai				
Porthiant	£9	£7	£9	£7
Costau eraill	£8	£8	£7	£7
Cyfanswm y costau amrywiol	£16	£15	£15	£14
yn golygu				
Elw gros	£56	£61	£44	£48
llai				
Costau pori	£10	£9	£9	£7
Elw gros yn cynnwys pori	£46	£52	£35	£41
Cyfraddau stocio (mamogiaid/ha)	10	8	8	6
Elw gros gan gynnwys pori (£/ha)	£456	£416	£276	£244
Elw gros ar brisiau confensiynol (£/pen)	-	£45	-	£36
Elw gros ar brisiau confensiynol (£/ha)	-	£364	-	£215

Ffynhonnell: Sefydliad Astudiaethau Gwledig, PCA

Gallu'r fferm gyfan i wneud elw

Mae data arolwg 1998/99 (y data diweddaraf sydd ar gael) ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid organig yn y DU yn dangos gwahaniaethau allweddol o ran perfformiad. O'u cymharu â ffermydd gwartheg a defaid confensiynol, y prif nodwedd yw cyfraddau stocio is y ffermydd organig - er bod nifer y stoc a gedwir yn debyg, mae'r ffermydd organig yn fwy, gan wneud iawn felly am y cyfraddau stocio is.

Gwnaeth ffermydd defaid a gwartheg ar lawr gwlad gynhyrchu mwy yr ha, er bod mwy o fuchesi godro yn y sampl organig gan ddylanwadu ar y canlyniadau. Gall hyn gyfrif am y lefelau llafur uwch, ac yn enwedig y llafur cyflog, peirannau a chostau sefydlog eraill ar ffermydd organig ar lawr gwlad. Mae incwm net y fferm yn negyddol ar gyfer y ddau grŵp yn y flwyddyn honno, ond roedd incwm ffermydd organig yn is fyth o ganlyniad i gostau sefydlog uwch, er gwaetha'u manteision o safbwynt lefelau cynhyrchu ac elw gros.

Roedd lefelau cynhyrchu ar ffermydd defaid a gwartheg organig tir mynydd ychydig yn llai, ond roedd eu helw gros yn debyg o ganlyniad i ostyngiad yn y prisiau porthiant. Yr oedd costau'r grŵp organig yn llai, gydag incwm net y fferm ychydig yn uwch, a oedd yn bositif i'r ddau grŵp.

Incymau net ffermydd defaid a gwartheg canolig, 1998/99

	Tir Isel		Tir Mynydd	
	Confensiynol	Organig	Confensiynol	Organig
Gwartheg (unedau da byw)	67	74	73	69
Defaid (unedau da byw)	49	37	68	91
Grawnfwyd (ha)	15	15	2	19
Cnydau Porthiant (eff. ha)	62	85	89	152
Cyfradd stocio (LU/eff. ha)	1.9	1.3	1.5	1.1
Maint (ha)	80	100	91	171
£ yr hectar				
Cynnyrch llaeth	£56	£224	£24	£0
Cynnyrch arall gwartheg	£236	£211	£244	£181
Cynnyrch defaid	£227	£176	£371	£258
Cynnyrch arall	£204	£429	£80	£196
Cyfanswm y cynnyrch	£724	£1,040	£719	£634
llai				
Porthiant	£118	£164	£119	£74
Costau eraill da byw	£55	£105	£71	£45
Costau cnydau	£85	£36	£59	£67
yn golygu				
Elw'r fferm gyfan	£465	£735	£470	£448
llai				
Llafur	£74	£23	£84	£30
Peirianwaith	£174	£215	£133	£206
Costau sefydlog eraill	£235	£324	£204	£141
yn golygu				
Incwm net y fferm	-£17	-£81	£49	£72

Ffynhonnell: Sefydliad Astudiaethau Gwledig, PCA

Y gost o droi'n organig

Mae'r modelau a baratowyd ar gyfer DEFRA i werthuso effaith troi'n organig ar wahanol fathau o ffermydd yn rhoi goleuni pellach i ni ar rôl y premiwm organig a thaliadau'r Cynllun Ffermio Organig, yn ogystal â'r gwahanol strategaethau posibl ar gyfer troi'n organig.

Mewn ffermydd defaid a gwartheg ar lawr gwlad, sy'n cynnwys canran o gnydau tir âr, mae'r premiwm organig yn hanfodol er mwyn cadw elw gros y ddwy system yn debyg. Cafwyd gwell perfformiad o dan reolaeth organig o ganlyniad i sawl ffactor: premiymau oedd ar gael yn gynnar yn 2002, cyfran uwch o wartheg, magu mwy o wartheg cyfnewid ar y fferm, a llai o ddibyniaeth ar brynu porthiant. Wrth i brisiau confensiynol wella, gan arwain at leihau'r gwahaniaeth rhwng prisiau stoc

organig a chonfensiynol, bydd cyfraniad y premiwm i wella perfformiad o dan reolaeth organig yn lleihau, ac mae'n debyg mai elw cyffredinol tebyg fydd y canlyniad. Mae taliadau cynnal yn gwneud cyfraniad sylweddol i elw'r fferm gyfan, ond mae modd cynnal eu gwerth o dan reolaeth organig er gwaetha'r cyfraddau stocio is.



Mae modelau ar gyfer ffermydd defaid a gwartheg **tir mynydd** wedi'u seilio ar fferm sy'n cadw defaid yn bennaf ac sy'n symud i system mwy cymysg o ffermio gyda chyfraddau stocio is a magu anifeiliaid cyfnewid ar y fferm. Ar yr olwg gyntaf, mae'n cynnig manteision ariannol, hyd yn oed gyda phrisiau confensiynol, ond gallai hyny fod yn adlewyrchiad o'r tybiaethau ynghylch y man cychwyn. Nid yw'r premiwm organig mor bwysig o'i gymharu â systemau eraill, ond bydd ei ostwng yn effeithio ar y perfformiad cyfan. Y ffactor pwysicaf sy'n dylanwadu ar elw'r fferm gyfan yw'r taliadau cynnal. Gyda chyfraddau stocio is, mae incwm o'r ffynhonnell hon yn llai, ond drwy gynllunio gofalus, mae modd cynnal yr incwm ar lefelau tebyg i ddulliau confensiynol. Rhaid i ffermwyr tir mynydd sy'n troi'n organig sicrhau bod ganddynt ddigon o dir porthiant i allu bwydo'r stoc dros y gaeaf er mwyn cydymffurfio â safonau, ynghyd â llety ar gyfer y gwartheg hynny y mae'n bosibl y bydd rhaid eu cyflwyno er mwyn helpu i reoli parasitiaid a rheoli tir pori.

Elw gros y fferm gyfan (£/ha) ar gyfer fferm gwartheg a defaid 90 ha ar dir mynydd, cyn, yn ystod ac ar l troi'n organig, prisiau 2001/02



Crynodeb

Mae data'r arolwg yn dangos er bod ffermydd organig yn gwneud incymau tebyg i incymau ffermydd confensiynol, ar y gorau isel iawn yw incwm y grŵp organig a'r grŵp confensiynol, ac mae'r modelau yn dangos bod ffermydd gwartheg a defaid ar lawr gwlad a thir mynydd yn dibynnu ar daliadau cynnal. Mae prisiau premiymau organig yn parhau yn bwysig er mwyn cynnal incymau cymharol. Er hynny, maent yn llai pwysig ar ffermydd gwartheg a defaid nag ar ffermydd godro a thir âr. Y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad yw rôl cynyddol y gwartheg, gyda goblygiadau o ran darparu cysgod a bwyd yn y gaeaf, y pwyslais ar fuchesi a phreiddiau caeedig; a chynhyrchu mwy o borthiant ar y fferm, gan fod porthiant organig yn anodd i'w gael ar y farchnad ac yn ddrud iawn i'w brynu.

Cewch fwy o gopïau o'r ddogfen hon oddi wrth:

Menna Williams
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8617